Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dyffryn Conwy
# Ffordd Nebo
# Llanrwst
# Conwy
# LL26 0SD

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Dyffryn Conwy

Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn ysgol gyfun gymunedol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Caiff ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Conwy. Mae ynddi 658 o ddisgyblion, gan gynnwys 137 yn y chweched dosbarth, sydd yn is na'r ffigyrau adeg yr arolygiad diwethaf. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal ardal wledig Dyffryn Conwy sydd yn cynnwys tref Llanrwst. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o ardaloedd sy'n gymharol ffyniannus.

Mae 6.5% o'r disgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.4%.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn perthyn i'r grwp ethnig gwyn. Nid oes disgybl sydd yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 22.7% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 1.1% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan yr ysgol uned ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu cymedrol.

Daw 59% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan un neu ddau riant ac mae 88% o'r disgyblion yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm ym maes dysgu a phrofiad ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gweledigaeth y pennaeth a chefnogaeth gref gan weddill yr uwch dîm arwain wedi arwain at ethos cynhwysfawr, gofalgar a Chymreig. Mae lles disgyblion yn elfen gref yn yr ysgol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgwyliadau'r arweinwyr o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel.

Mae llu o weithgareddau diwylliannol a chorfforol gwerthfawr ar gael i'r disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac maent yn arddangos ymagweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae perthynas weithio gynhaliol a chynhyrchiol rhwng yr athrawon a'r disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r addysgu'n cynnig digon o her i'r disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf abl. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion bob amser yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm ym maes dysgu a phrofiad ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau, yn cynnwys medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Codi disgwyliadau'r athrawon o ddefnydd y Gymraeg gan y disgyblion

A3 Gwella ansawdd yr addysgu a sicrhau bod yr athrawon yn cynnig digon o her i'r disgyblion

A4 Gwella ansawdd, miniogrwydd ac uchelgais y prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

A5 Sicrhau bod dosraniad cyfrifoldebau o fewn yr uwch dîm arwain yn gytbwys

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae llawer o ’r disgyblion yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn briodol ac, yn y mwyafrif o achosion, maent yn adeiladu ar hwn yn fuddiol. Mae ychydig o’r disgyblion yn gwneud cynnydd buan iawn yn eu gwybodaeth a’u medrau pynciol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw’r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn yr agweddau hyn.

Ar lafar, gall lawer o’r disgyblion gyfathrebu eu syniadau’n eglur yn y Gymraeg a Saesneg. Mae’r disgyblion hyn yn trafod eu syniadau mewn modd aeddfed ac yn gwrando’n barchus ar safbwyntiau eraill. Er enghraifft, yn eu gwersi hanes, maent yn dychmygu bod yn sensor llythyrau milwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac yn trafod effaith hyn ar y milwyr, eu teuluoedd a’r sensor ei hun. Mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu geirfa gyffredinol briodol ac yn defnyddio termau pynciol yn gywir ac yn hyderus. Yn y mwyafrif o achosion, maent yn cynnig ymatebion synhwyrol, estynedig i gwestiynau gan eu athrawon. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, maent yn cynnig ymatebion byr, annatblygedig. Yn rhy aml, mewn gwersi cyfrwng Cymraeg, mae disgyblion yn trafod â’i gilydd ac ymateb i’w hathrawon yn Saesneg. Mae hyn yn cyfyngu ar eu datblygiad ieithyddol a’u hyder i ddefnyddio’r iaith Gymraeg.

Man gan y rhan fwyaf o’r disgyblion fedrau darllen priodol. Maent yn cywain gwybodaeth berthnasol o ffynonellau amrywiol yn llwyddiannus a gall y mwyafrif ddadansoddi testunau a dod i gasgliadau synhwyrol. Er enghraifft, yn eu gwersi daearyddiaeth, darllena’r disgyblion amryw o destunau ynghylch tir-ffurfiau gwahanol i ddatblygu syniadau ynghylch sut ffurfiwyd ‘Pont werdd Cymru’ yn sir Benfro. Mae ychydig o’r disgyblion yn arddangos uwch fedrau darllen cadarn, er enghraifft wrth syntheseiddio gwahanol destunau a chanfod ystyron sydd ymhlyg mewn testunau. Mae’r mwyafrif o’r disgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus â mynegiant priodol. Fodd bynnag, darllena lleiafrif o’r disgyblion mewn modd petrusgar gan oedi wrth ddod ar draws geiriau anghyfarwydd.

Mewn llawer o byncia ar draws y cwricwlwm, mae’r disgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig priodol. Mae llawer o’r disgyblion yn strwythuro’u gwaith yn rhesymegol ac yn cyfathrebu eu syniadau yn glir. Mae ychydig ohonynt yn arddangos medrau ysgrifennu creadigol soffistigedig, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson ynghylch ffatri yn cau yn eu gwersi Cymraeg. Fodd bynnag, mae tua hanner y disgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig â gormod o wallau ieithyddol yn y Gymraeg a Saesneg. Mewn gwersi cyfrwng Cymraeg, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu yn Saesneg ac mae ychydig ohonynt yn ymateb mewn cymysgedd o frawddegau Cymraeg a Saesneg. Mae hyn yn atal y disgyblion hyn rhag datblygu eu medrau ysgrifenedig Cymraeg.

Mae gan lawer o’r disgyblion fedrau rhifedd priodol ac maent yn cymhwyso’r rhain mewn modd addas mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn dadansoddi data ynghylch ymlediad yr haint colera yn y 19eg ganrif yn eu gwersi bioleg. Yn gyffredinol, fodd bynnag, dim ond y medrau rhifedd mwyaf sylfaenol mae’r disgyblion yn eu defnyddio. Gan amlaf, maent yn llunio siartiau bar

neu'n cyflawni cyfrifiadau syml yn unig. Mae tueddiad gan lawer o'r disgyblion i estyn cyfrifiannell wrth wneud cyfrifiadau syml, er enghraifft wrth rannu gyda deg, yn hytrach na cheisio gwneud y rhain yn eu pennau.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol i gyflawni tasgau syml, er enghraifft drwy brosesu geiriau neu greu cyflwyniadau mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu eu huwch fedrau TGCh, er enghraifft drwy ymdrin â thaenlenni neu gronfeydd data, yn ddigon aml i ddatblygu neu atgyfnerthu'r medrau hyn.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu creadigrwydd yn fuddiol. Er enghraifft maent yn cynhyrchu gwaith celf, cyfansoddi, animeiddio a ffilmio i ymateb i'r teitl 'Llanrwst ar dân' fel rhan o brosiect mewn partneriaeth â'r fenter iaith leol.

Yn y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 4 mewn llawer o'r dangosyddion allweddol yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg. Mae'r perfformiad yn y dangosydd lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg ac yn y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf ac yn gyson is nag ydyw mewn ysgolion tebyg. Mae cyfran y disgyblion sydd yn ennill 5 TGAU gradd A*-A neu gyfwerth yn nodedig is nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Yn y mwyafrif o achosion, mae perfformiad bechgyn a merched yn y prif ddangosyddion yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg ers 2016. Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Nid oes disgybl wedi gadael yr ysgol yn ddigymhwyster ers 2016.

Mae perfformiad disgyblion yn y chweched dosbarth wedi dirywio ers 2016. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill 3 gradd A*-A neu gyfwerth a 3 gradd A*-C yn ogystal â pherfformiad yn y trothwy lefel 3 a'r sgôr pwyntiau ehangach yn gyson is nag ydynt mewn ysgolion tebyg.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae lles disgyblion yn agwedd gref o fywyd Ysgol Dyffryn Conwy. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi ysbryd cymunedol yr ysgol a'r ethos cefnogol sy'n deillio o hynny.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn estyn croeso cynnes i ymwelwyr, yn rhyngweithio'n gyfeillgar â'i gilydd ac yn dangos parch at eu hathrawon. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod sut y gallent fynegi unrhyw bryderon sydd ganddynt ac yn ffyddiog y bydd y staff yn ymdrin â hwy yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn deall sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion yn cyrraedd yn brydlon i'w gwersi ac yn barod i weithio. Mae llawer yn cydweithio'n effeithiol a brwdfrydig mewn parau a grwpiau, gan ddangos parch at gyfraniadau ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn ymdrechu'n galed wrth weithio'n annibynnol. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu her. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar y medrau i wella eu dysgu eu hunain yn effeithiol. Fodd bynnag, mae ymddygiad heriol ychydig o ddisgyblion yn cyfyngu ar eu cynnydd a chynnydd eu cyfoedion.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn buddio o'r profiad o ymgymryd â rolau arweinyddol. Mae'r disgyblion hyn yn cyfrannu'n at fywyd a gwaith yr ysgol yn fuddiol, er enghraifft fel cynrychiolwyr dosbarth o fewn y fforymau blwyddyn, ac fel aelodau o'r cyngor ysgol, y cyngor eco a'r cyngor chwaraeon. Mae'r cyngor ysgol yn gweithio'n frwdfrydig ac effeithiol wrth arwain ystod o weithgareddau elusennol ac amgylcheddol gwerthfawr. Maent yn trefnu amryw o brosiectau buddiol, er enghraifft wrth drefnu ymgyrch i atal bwlio a lleihau'r sbwriel o gwmpas yr ysgol. Mae'r disgyblion ar y cynghorau hyn yn datblygu medrau busnes a menter buddiol. Enghraifft o hyn yw drwy baratoi cais llwyddiannus am arian gan ymddiriedolaeth cyngor y dref ar gyfer ffynnon ddŵr newydd i'r ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn arwain cyfarfodydd rheolaidd ac effeithiol gyda chwmni rheoli safle'r ysgol i gyfleu barn disgyblion am amryw o agweddau o fywyd yr ysgol. Mae hyn wedi dwyn ffrwyth, er enghraifft wrth wella argaeledd bwyd iach yn y ffreutur a lleihau'r defnydd o blastig.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall ac yn gwerthfawrogi manteision bwyta a byw'n iach. Maent yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau cadw'n heini a chwaraeon allgyrsiol, er enghraifft drwy'r clybiau dringo, ceufadio yn nghanolfan Nant Bwlch yr Haearn yn ogystal â'r timoedd rygbi poblogaidd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae bron pob athro'n meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodelau iaith da i'r disgyblion. Mewn llawer o wersi, ceir perthynas weithio agos a chynhaliol. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw'r athrawon yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn eu dosbarthiadau yn ddigon effeithiol.

Yn y mwyafrif o achosion, mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus ac yn cynnig her briodol i'r disgyblion. Yn y mwyafrif o wersi, mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion dysgu'n glir ac yn sicrhau bod tempo addas i'r gweithgareddau. Maent yn llwyddo i feithrin diddordeb y disgyblion a'u hysgogi i gyflawni'n briodol. Mewn tua hanner y gwersi, mae'r athrawon yn holi'r disgyblion mewn modd addas. Maent yn gofyn cwestiynau agored ac yn rhoi amser priodol i'r disgyblion lunio'u hymatebion. Maent yn cywiro camsyniadau'r disgyblion mewn modd sensitif ac yn cynnig esboniadau clir i gynorthwyo'u dealltwriaeth.

Mewn ychydig o achosion, mae'r athrawon yn arddangos brwdfrydedd heintus am eu pwnc. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni ac maent yn cynnig gwaith heriol iddynt. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio'u gwersi'n greadigol ac yn cynnig gweithgareddau symbylol i'r disgyblion. Maent yn holi'r disgyblion yn dreiddgar ac yn dilyn i fyny ar eu hymatebion i'w cymell i ymhelaethu arnynt a dyfnhau eu dysgu. Yn y gwersi hyn, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd buan iawn yn eu gwybodaeth bynciol a'u medrau.

Yn y mwyafrif o wersi dwyieithiog, mae'r athrawon yn darparu'n fedrus ar gyfer disgyblion sy'n dilyn eu cyrsiau yn y Gymraeg neu Saesneg. Fodd bynnag, mewn llawer o wersi cyfrwng Cymraeg, nid yw disgwyliadau'r athrawon o ddefnydd y Gymraeg gan y disgyblion yn ddigon uchel. O ganlyniad, mae disgyblion yn troi i Saesneg wrth drafod neu ymateb i gwestiynau'r athrawon yn rhy aml.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgwyliadau'r athrawon o'r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel. Yn y gwersi hyn, nid yw'r gweithgareddau dysgu'n llwyddo

i ddiddori na herio'r disgyblion yn briodol. Nid yw cynllunio'r athrawon yn cyfateb yn ddigon da i anghenion a galluoedd disgyblion. Mewn tua hanner y gwersi, nid yw'r athrawon yn holi'r disgyblion mewn modd cynhyrchiol. Mae'r cwestiynau'n dueddol o fod yn gaeedig ac, yn rhy aml, cyniga'r athrawon ymatebion dros y disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ymateb mewn modd meddylgar i gwestiynau.

Yn y mwyafrif o achosion, mae'r athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn briodol. Mae'r athrawon hyn yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion i'w helpu i ddeall sut i wella'u gwaith. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r arsylwadau, er enghraifft drwy ailddrafftio rhannau o'u gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw arsylwadau'r athrawon yn rhoi cyngor digon defnyddiol i'r disgyblion ac felly nid yw'r ailddrafftio'n gwella ansawdd y gwaith.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol buddiol sydd yn cyfoethogi profiadau disgyblion y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn cynnwys rhaglen gyfoethog, lawn o ymweliadau a gweithgareddau chwaraeon a chyfleoedd diwylliannol priodol yn cynnwys taith i Wlad yr Iâ i astudio'i daeareg. Mae cydweithio gwerthfawr rhwng yr ysgol a'r gymuned leol yn galluogi disgyblion i fanteisio ar brofiadau allgyrsiol perthnasol. Er enghraifft, mae côr disgyblion a chyn-ddisgyblion sydd yn cystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Mae'r cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol y disgyblion. Yn gyffredinol, mae adrannau yn cynllunio'n addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu penodol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer ymestyn disgyblion mwy abl yn ddigon cyson nac effeithiol ar draws adrannau. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr holl ystod gallu yn dueddol o dderbyn yr un tasgau dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig arlwy eang o bynciau perthnasol sydd yn ymateb i anghenion cyflogaeth y dalgylch. Mae'n gweithio'n effeithiol gydag ysgolion eraill a cholegau addysg bellach lleol er mwyn cynnig darpariaeth eang o gyrsiau. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau'r disgyblion mewn cyd-destunau galwedigaethol gan gynnwys amaeth, gofal anifeiliaid ac adeiladwaith. Mae partneriaethau gyda chyflogwyr lleol yn cynnig profiadau buddiol i ddisgyblion, er enghraifft yn ystod eu gwaith menter. Mae'r ysgol yn addasu ei chwricwlwm yn briodol i fodloni anghenion disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw'r arlwy yn ymateb yn llwyddiannus i anghenion lleiafrif o'r disgyblion sydd yn dechrau astudiaethau ôl-16. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn llwyddo i drosglwyddo o Flwyddyn 12 i Flwyddyn 13.

Mae'r ysgol wedi cynllunio'n ddilys ar gyfer datblygu llythrennedd y disgyblion , gyda chyfleoedd priodol ar gyfer ysgrifennu estynedig mewn llawer o bynciau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio er mwyn paratoi'r disgyblion ar gyfer y tasgau hyn yn ddigon trylwyr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cymhwyso medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid oes digon o amrywiaeth na her yn y tasgau a gynigir i'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi cynllunnio cyfleoedd addas i ddefnyddio medrau TGCh yn y mwyafrif o bynciau ond mae'r cyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn ymhellach yn rhy brin. Rhoddir cymorth priodol i ddisgyblion â medrau darllen a rhifedd gwan.

Mae'r ysgol yn ffurfio grwpiau dysgu addas trwy ddefnydd dilys o wybodaeth asesu a lles. Mae'r cyfle i ddisgyblion sydd heb dderbyn eu holl addysg gynradd drwy'r Gymraeg i drosglwyddo i grwpiau cyfrwng Cymraeg yn gryfder.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn ysgol ofalgar a chyfeillgar. Mae egwyddorion 'tair rheol aur' yr ysgol, sef 'byddwch yn barchus, byddwch yn ddiogel, byddwch yn barod' yn sail gref i'w gwaith. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac yn ymddwyn yn waraidd.

Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ddarpariaeth o fewn canolfan 'yr Hwb' yn sicrhau cynhaliaeth arbennig i les, datblygiad personol a chynnydd disgyblion bregus. Gwneir defnydd da o staff atodol i gefnogi'r disgyblion hyn. Er mwyn sicrhau cymorth ychwanegol buddiol i ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu ystod o ymyraethau. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cydweithio â'r elusen 'Canine Intervention' sydd yn dod â chŵn anwes i'r dosbarth i gysuro disgyblion bregus. Mae cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddogfennau defnyddiol sydd yn cynnwys strategaethau addas i fodloni eu hanghenion. Mae'r ysgol yn olrhain ac adolygu cynnydd y disgyblion hyn yn erbyn eu targedau yn briodol.

Mae gan yr ysgol systemau olrhain cynnydd, ymddygiad a phresenoldeb addas. Gwneir defnydd da o'r wybodaeth sydd yn deillio o'r systemau hyn i adnabod angen a darparu cefnogaeth bwrpasol wrth ymateb i bresenoldeb gwan ac i wella ymddygiad disgyblion penodol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau cyrhaeddiad i'r disgyblion bob amser yn ddigon heriol i sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cyfathrebu'n briodol gyda rhieni. Mae adroddiadau interim a diwedd y flwyddyn yn cynnwys sylwadau buddiol a thargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant.

Cryfder arbennig yng ngwaith yr ysgol yw'r modd y mae'n cydweithio effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus â'r elusen 'Action for children' i gefnogi iechyd meddwl carfan o ddisgyblion Blwyddyn 10. Mae'r ddarpariaeth bersonol ac arbenigol i ddisgyblion sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu yn gryfder amlwg.

Mae disgyblion yn elwa o gyngor ac arweiniad buddiol iawn wrth drosglwyddo o un cyfnod i'r llall, gan gynnwys arweiniad yn ymwneud â dewisiadau gyrfa. Un elfen werthfawr o'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gyrfaoedd yw'r 'Digwyddiadur Gyrfaoedd' sy'n cynnig rhaglen gefnogi amserol i ddisgyblion Blynyddoedd 9, 10 ac 11.

Caiff polisi ymddygiad yr ysgol ei roi ar waith yn gyson gan lawer o'r staff. O ganlyniad i fewnbwn y disgyblion wrth ei lunio, mae disgyblion yn deall disgwyliadau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr a deniadol i ddisgyblion drwy amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol fel cerdded ceunant, sgio a syrffio.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth addas ar gyfer datblygiad diwylliannol disgyblion drwy ystod eang o deithiau i leoliadau lleol o bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys Llyn Celyn a'r Ysgwrn, sef cartref Hedd Wyn.

Ceir amserlen eang ac apelgar o weithgareddau cinio ac ar ôl ysgol i ddisgyblion, gan gynnwys clybiau pysgota, marchogaeth a nofio. Mae llawer iawn o'r gweithgareddau hyn yn hybu ffitrwydd ac yn annog disgyblion i wneud dewisiadau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar eu lles. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i fyw'n iach drwy raglen ffitrwydd fuddiol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Yn sgîl ymgynghori ystyrlon â disgyblion, mae'r ysgol wedi cynllunio/yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol. Mae'n cyfrannu'n fuddiol at ddatblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion ac yn eu paratoi ar gyfer bywyd fel oedolion.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i ddisgyblion ymwneud â'r celfyddydau creadigol wrth gymryd rhan mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Mae cyfleoedd buddiol i gymryd rhan mewn perfformiadau, gan gynnwys perfformiad y sioe gerdd, 'Cae Melwr', yn ddiweddar. Mae'r cyfleoedd hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar hyder a medrau perfformio disgyblion.

Cefnogir datblygiad moesol, cymdeithasol ac ysbrydol disgyblion yn dda yn ystod cyfnodau bugeiliol, sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol a gwasanaethau torfol. Yn y gwasanaethau hyn, mae cyfle iddynt fyfyrio'n ystyrlon ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain ac eraill.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn gadarn, ac mae'n ymateb yn briodol i ofynion lleol a chenedlaethol. Ei weledigaeth yw sicrhau bod Ysgol Dyffryn Conwy yn gymuned ddwyieithog a chynhwysol, sy'n gwasanaethu ei chymdogaeth leol, ac yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gyrraedd eu potensial. Gyda chefnogaeth yr uwch dîm rheoli, mae'r pennaeth yn cyfathrebu ei weledigaeth i'r staff, y disgyblion a'r rhieni yn briodol.

Mae gan yr ysgol flaenoriaethau addas a threfniadau dydd i ddydd effeithiol. Mae trefn cyfarfodydd strwythuredig sydd wedi'i sefydlu'n gadarn, a pholisïau defnyddiol, yn sail i reolaeth fwriadus yn yr ysgol. Mae rolau a chyfrifoldebau yr uwch dîm rheoli a phob aelod o staff wedi'u diffinio'n glir. Fodd bynnag, nid yw rhaniad cyfrifoldebau yr uwch dîm rheoli yn gytbwys. O ganlyniad, nid oes digon o amser gan rai aelodau o'r tîm i weithredu'n ddigon strategol i sicrhau gwelliannau yn yr addysgu a safonau. Mae gan yr ysgol gyfundrefn rheoli llinell addas ond mewn ychydig o achosion nid yw'r drefn atebolrwydd yn ddigon eglur. Mae'r uwch dîm rheoli yn ymdrin mewn modd cynhaliol a chadarnhaol â thanberfformio staff. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr bob amser yn cynnig digon o her i'r staff hyn er mwyn sicrhau gwelliannau.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol.  Mae ganddynt adnabyddiaeth briodol o'r ysgol a'i phrosesau.  Mae rôl y llywodraethwyr fel cyfaill beirniadol sydd yn herio'r ysgol yn datblygu.

Mae gan yr ysgol raglen gynhwysfawr o weithgareddau i sicrhau ansawdd ac mae llawer o arweinwyr yn lled-glir ynglŷn â'u rôl wrth hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.  Mae arweinwyr yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth o arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion yn briodol.  Maent yn darparu crynodeb defnyddiol o'r canfyddiadau i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella.  Mae'r arferion da sy'n cael eu hadnabod yn y broses hon yn cael eu rhannu'n briodol gyda staff.  Mae'r ysgol yn canfod barn disgyblion a rhieni yn rheolaidd ac yn gweithredu'n addas ar eu syniadau.  Er bod prosesau arfarnu wedi eu sefydlu'n gadarn, mae ansawdd y gwerthuso'n rhy amrywiol ymhlith yr arweinwyr.  Mewn lleiafrif o achosion, maent yn canolbwyntio'n ormodol ar gydymffurfiaeth â pholisïau yn hytrach nag ar gynnydd,safonau a medrau disgyblion.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn dadansoddi data perfformiad yn briodol, ar y cyfan, i adnabod meysydd allweddol sydd angen eu gwella.  Fodd bynnag, gan fod targedau meintiol yr ysgol yn rhy isel, mae'r dadansoddiadau o berfformiad yn aml yn rhy hael.  Yn ogystal, nid yw arweinwyr yn cymharu perfformiad yn ddigon trylwyr yn erbyn ysgolion tebyg dros amser.  O ganlyniad, nid yw'r angen am welliant yn cael ei adnabod yn llawn.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn adnabod meysydd priodol sydd angen sylw ac mae cyswllt addas i'r hunanwerthusiad.  Mae gan y mwyafrif o arweinwyr canol ddealltwriaeth briodol o agweddau sydd angen eu datblygu ac maent yn cynllunio'n addas i'w gwella.  Mae'r cynlluniau adrannol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol ac yn cynnwys camau gweithredu priodol.  Fodd bynnag, nid yw'r gweithredoedd ar gyfer gwelliant bob tro'n ddigon penodol ac amserol.  Dros amser, nid yw prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant wedi arwain at welliannau mewn deilliannau diwedd cyfnod allweddol 4 nac yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn rheoli perfformiad pob aelod o staff yn erbyn targedau sy'n berthnasol i flaenoriaethau'r ysgol yn addas.  Cefnogir y drefn gan gynllun datblygu staff sydd yn ymateb yn briodol i ofynion hyfforddiant sy'n codi o arfarniadau o wersi a chraffu ar waith.

Mae'r ysgol yn buddsoddi'n helaeth er mwyn datblygu holl staff yr ysgol yn broffesiynol a'u cadw'n wybodus ynghylch datblygiadau cyfredol mewn addysg.  Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd priodol i athrawon weithio gydag ysgolion eraill ac i gyfranogi mewn cymunedau dysgu.  Fodd bynnag, nid yw'r datblygiadau wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau nac ar arferion athrawon.

Mae gan yr ysgol staff cymwys sy'n cael eu defnyddio'n effeithlon.  Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn ofalus.  Maent yn blaengynllunio'n ddoeth gan geisio peidio â niweidio addysg disgyblion oherwydd cwtogiadau ariannol.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o grantiau penodol yn cynnwys y grant amddifadedd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2019